

Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal

Cymorth i fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru

Crynodeb i bobl ifanc



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Helo

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn yng Nghymru gael dechrau da mewn bywyd.

Yng Nghymru, mae cymorth ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r cymorth hwn yno i atal problemau rhag tyfu'n fwy neu sefyllfaoedd rhag gwaethgu.

Mae pob teulu yn wahanol. Mae pob cartref yn wahanol.

Weithiau mae pethau'n digwydd sy'n gallu gwneud bywyd yn anoddach. Ni ddylai neb orfod wynebu pethau ar ei ben ei hun.

Nid yw angen help yn golygu bod teulu wedi methu. Nid yw'n golygu bod unrhyw un "mewn trafferth".

➡ Mae'r canllaw hwn yn esbonio Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal yng Nghymru.

Mae'n dangos sut mae cymorth yn gweithio a pham mae cael help yn gynnar yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.

**Dylai pob plentyn dyfu i
fyny mewn teulu lle maen
nhw'n teimlo'n ddiogel, yn
hapus ac yn iach.**

i Ymyrraeth Gynnar – cael help yn gynnar cyn i broblem dyfu.

i Atal – helpu pobl fel nad yw problemau'n dechrau yn y lle cyntaf.

i Fframwaith – yn egluro sut dylai pethau weithio.



Ein nod

Rydym eisiau sicrhau bod babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir.

Rydym eisiau helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle bynnag y bo'n bosibl fel bod llai o blant yn gorfod mynd i ofal.

Os nad yw plentyn yn ddiogel gartref, efallai bydd angen iddo fyw mewn lle mwy diogel. Gall hyn olygu byw gyda gofalwyr maeth, perthnasau neu mewn cartref plant.



Pam mae hyn yn bwysig

Mae'r fframwaith hwn yn helpu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, ysgolion a gwasanaethau cymunedol i weithio gyda'i gilydd. Mae'n helpu pawb i ddeall pa gymorth sydd ar gael a sut dylai'r cymorth hwnnw weithio.

Mae hefyd yn helpu i ddiogelu hawliau plant a'r CCUHP.

Mae hyn ar gyfer:



Teuluoedd

fel eu bod yn gwybod pa gymorth sydd ar gael ym mhob ardal a sut i'w gael. Bydd hyn yn helpu nhw i gysylltu â gwasanaethau yn gynharach ac atal problemau rhag gwaethygu.



Arweinwyr a gweithwyr proffesiynol

sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn eu helpu i weithio gyda'i gilydd a darparu cymorth sy'n cyd-fynd. Bydd hefyd yn helpu nhw i wirio gwasanaethau a gweld beth sydd angen gwella.



Gofalwyr maeth, gwarcheidwaid arbennig a gofalwyr sy'n berthnasau

fel eu bod yn deall sut mae cymorth yn gweithio a sut i gael help.

i Gofalwr sy'n berthynas – aelod o'r teulu neu ffrind agos i'r teulu sy'n gofalu am blentyn.

i CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hyn yn dweud bod gan blant yr hawl i fod yn ddiogel, i gael eu gwrandio arnynt, ac i gael eu trin yn deg.

Pam mae cael help yn gynnar yn bwysig



Mae Megan a Morgan yn gweld rhywfaint o sbwriel yn arnofio yn yr afon.

Maen nhw'n tynnu sbwriel allan o'r dŵr. Ond mae mwy o sbwriel yn dal i arnofio heibio.

Mae Megan yn dweud, "Dos i weld beth sy'n digwydd ymhellach i fyny'r afon."

Mae Morgan yn cerdded i fyny'r afon ac yn dod o hyd i fin sbwriel wedi torri wrth bont.

Mae'n trwsio'r bin fel nad yw'r sbwriel yn gallu chwythu i mewn i'r dŵr.

Yn fuan iawn mae'r afon yn aros yn lân.



Y pwynt:

Weithiau y ffordd orau o ddatrys problem yw trwsio'r achos.

Mae help cynnar yn gweithio yn yr un ffordd. Mae'n edrych ar:

- beth all wneud bywyd yn anoddach
- beth sy'n helpu plant i deimlo'n ddiogel ac i wneud yn dda.

Mae'n bwysig helpu pan fo argyfwng. Ond mae'n well fyth gweithredu'n gynnar cyn i bethau fynd mor ddrwg.

Mae hyn yn golygu:

Helpu pob plentyn i dyfu'n iach, dysgu'n dda a theimlo'n dda o'r dechrau.

Helpu i leihau effaith pethau fel pryderon am arian, straen neu gyfnodau anodd.

Helpu plant i adeiladu'r pethau sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac i wneud yn dda. Mae hyn yn cynnwys perthnasoedd iach, teimlo'n rhan o'u cymuned, a thyfu mewn hyder.

Cefnogi teuluoedd fel bod plant yn tyfu i fyny mewn cartrefi a chymunedau diogel a gofalgarg.

Gweithio gyda'n gilydd i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn rhan o'r gymuned.



Y cymorth cywir, ar yr amser cywir

Mae ymyrryd yn gynnar yn golygu:

- sylwi pan fo babanod, plant, pobl ifanc neu deuluoedd angen cymorth
- cynnig help cyn i broblemau dyfu'n fwy.


Mae atal yn golygu:

- rhoi cymorth ar waith fel nad yw rhai problemau'n digwydd yn y lle cyntaf.

Y nod yw rhoi'r cymorth cywir, ar yr amser cywir, yn y ffordd gywir.

Gall cymorth edrych yn wahanol yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen. Gall gwasanaethau weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r cymorth hwn. Maen nhw'n gweithio gyda'r teulu cyfan ac yn gwrandao ar blant a phobl ifanc.

Gall cymorth edrych fel pyramid.



Wrth i fywyd newid, gall teuluoedd gael cymorth o wahanol rannau o'r pyramid.

Enghraifft go iawn:

Cyfarfodydd Grŵp Teulu yn Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot

Yn y cyfarfodydd hyn, gall teuluoedd siarad gyda gweithwyr proffesiynol am:

- beth sy'n mynd yn dda
- beth sy'n eu poeni
- beth allai fod angen newid.

Gyda'i gilydd, maen nhw'n gwneud cynllun i helpu cadw'r plentyn yn ddiogel ac yn cael cymorth.

Gall y cynllun gynnwys aelodau o'r teulu nad ydynt yn byw gyda'r plant, fel neiniau a theidiau neu ffrindiau agos.

Mae gweithwyr proffesiynol yno i wrando, rhannu cyngor a helpu'r teulu i feddwl drwy'r sefyllfa.

Y nod yw helpu teuluoedd i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain a datrys pethau'n gynnar, cyn i broblemau dyfu.



Canlyniadau – beth gall cael help ei wneud

Pan fydd teuluoedd yn cael y cymorth cywir, gall plant deimlo'n well a gwneud yn well. Mae hyn yn rhoi gwell cyfle iddyn nhw dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn barod ar gyfer bywyd.

Mae plant yn fwy tebygol o:

- fod yn ddiogel rhag niwed
- mwynhau dysgu a datblygu sgiliau newydd, fel siarad a chyfathrebu
- deall eu teimladau a dysgu sut i'w rheoli
- teimlo'n hyderus
- adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda'u teulu, ffrindiau a'u cymuned.

Mae teuluoedd yn fwy tebygol o greu cartrefi diogel a gofalgwr lle gall plant dyfu a ffynnu.

Gall cael y cymorth cywir hefyd leihau pethau sy'n gwneud bywyd yn anoddach — fel pryderon am arian, problemau iechyd neu anawsterau iechyd meddwl.

Enghraifft go iawn:



I Dadau, Gan Dadau yn Nhorfaen

Mae'r prosiect hwn ar gyfer tadau newydd a thadau sy'n disgwyl babi. Mae'n rhoi lle diogel iddyn nhw:

- ofyn cwestiynau
- dysgu am iechyd a bod yn rhiant
- siarad am y newidiadau sy'n dod gyda chael plentyn.

Mae'r sesiynau'n trafod pynciau fel llesiant, byw'n iach a chymorth gan weithwyr proffesiynol.

Y nod yw helpu tadau i deimlo'n fwy hyderus ac yn fwy parod ar gyfer bod yn rhiant.



Cael cymorth – beth allwch chi ei ddisgwyl

Dylai fod yn hawdd cael help pan fydd ei angen arnoch.

Ble bynnag rydych chi'n gofyn am gymorth, dylai rhywun wrando arnoch a'ch cyfeirio at y cymorth sydd ei angen arnoch.

i Dim drws anghywir – ni ddylech byth deimlo eich bod wedi mynd i'r lle anghywir. Dylai'r person rydych chi'n siarad ag ef wrando a'ch helpu i ddod o hyd i'r cymorth cywir, hyd yn oed os nad nhw sy'n ei ddarparu.

Dylai cymorth weithio gyda chi a'ch teulu a sicrhau eich bod yn cael eich:

- trin gyda gofal a pharch
- gwrandao arnoch a'ch cynnwys mewn penderfyniadau.

Dylai cymorth fod yn garedig ac yn ddeallus. Dylai oedolion ddeall sut gall profiadau anodd effeithio ar fywyd pobl a gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.

i Ystyriol o drawma – cynnig cymorth mewn ffordd sy'n teimlo'n ddiogel ac sy'n deall bod profiadau'r gorffennol yn gallu effeithio ar bobl o hyd.

Dylai eich cymorth fod ar gael yn yr iaith rydych chi'n teimlo fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Mae'r Cynnig Gweithredol yn golygu y dylid cynnig gwasanaethau yn Gymraeg i chi heb orfod gofyn amdanynt.

Dylai eich cymorth fod mor agos â phosibl at ble rydych chi'n byw.

Dylai gwasanaethau gwahanol rannu gwybodaeth a gwybod eich stori fel nad oes rhaid i chi esbonio popeth am eich bywyd dro ar ôl tro.

Dylai cymorth newid wrth i'ch sefyllfa newid.

Enghraifft go iawn:

Eiriolaeth i Rieni ledled Cymru

Mae Eiriolaeth i Rieni yn cefnogi rhieni gyda rhywun nad yw'n rhan o'r gwasanaethau proffesiynol pan fyddant yn cael cymorth gan wasanaethau. Maen nhw'n helpu rhieni i:

- ddeall cyfarfodydd a chynlluniau
- gofyn cwestiynau
- rhannu eu barn a'u teimladau
- cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu plentyn.

Y nod yw helpu rhieni i deimlo'n fwy hyderus ac yn fwy cynnwys.

i Eiriolwr — rhywun sydd ar eich ochr chi. Maen nhw'n eich helpu i ddweud beth rydych chi'n ei feddwl ac yn gwneud yn siŵr bod pobl yn gwrandao.



Gwirio bod y cymorth yn gweithio

Nid darparu cymorth yn unig mae gwasanaethau ledled Cymru yn ei wneud. Maen nhw hefyd yn gwirio a yw'r cymorth hwnnw'n gwneud gwahaniaeth. Mae gwasanaethau'n defnyddio gwahanol offer a ffyrdd i weld a oes cynnydd yn cael ei wneud dros amser. Maen nhw'n gwirio a yw plant a phobl ifanc yn:

- ddiogel
- yn iach
- yn cael eu trin gyda pharch
- yn cael eu cefnogi yn yr ysgol ac yn dysgu'n dda
- yn cael eu gwrandao arnynt ac yn gallu rhannu eu barn
- yn byw mewn cartrefi diogel
- yn cael cyfle i wneud yn dda mewn bywyd.

Byddan nhw hefyd yn gwrandao ar blant a theuluoedd am eu profiadau o gael cymorth. Mae hyn yn helpu gwasanaethau i wella.



Diolch am ddarllen

Gallwch ddarllen mwy am y Fframwaith yma:

www.llyw.cymru/trawsnewid-ar-gyfer-gwasanaethau-i-blant-adroddiad-etifeddiaeth

